

NEWIDIADAU O RAN BAGIAU PORFFOR: POPETH MAE ANGEN I CHI EI WYBOD...

Pryd bydd y newidiadau yn dod i rym?

Bydd cwsmeriaid y gwasanaeth bagiau porffor yn dechrau derbyn llythyrau o 21 Hydref. Bydd y gwasanaeth newydd yn dod i rym o 4 Tachwedd.

Pam bydd angen i gwsmeriaid ailgofrestru?

Mae angen i ni sicrhau bod gyda ni'r wybodaeth ddiweddaraf am ein ddefnyddwyr cofrestredig. Nod yr adolygiad yw gwella effeithiolrwydd y gwasanaeth rydyn ni'n ei gynnig i'n cwsmeriaid a'i wneud yn awtomataidd. Bydd yr adolygiad hefyd yn caniatáu i ni gynllunio ein llwybrau yn fwy effeithlon (nawr ac yn y dyfodol), sicrhau bod casgliadau yn cael eu cynnal, a gwella'n trefnau cyfathrebu â chi.

Sut mae'r gwasanaeth yn cael ei wella?

O ganlyniad i'r gwasanaeth cwbl awtomataidd newydd, rydyn ni'n rhagweld y bydd llai o gasgliadau yn cael eu colli, a bydd llwybr casglu mwy effeithlon a threfnau cyfathrebu gwell â phreswylwyr. Yn ogystal â hyn, bydd modd i breswylwyr sydd wedi ailgofrestru/sydd newydd gofrestru wneud y canlynol cyn bo hir:

- Gwirio dyddiadau/diwrnodau casglu ar-lein
- Cofrestru ar gyfer negeseuon atgoffa trwy e-bost
- Archebu bagiau porffor ar-lein

Fydd y diwrnodau a charfanau casglu bagiau porffor yn newid?

Er mwyn gwella effeithiolrwydd y llwybrau casglu, mae'n debygol bydd angen i'r diwrnodau a charfanau casglu newid – byddwch chi'n cael gwybod am unrhyw newidiadau ar ôl i chi ailgofrestru.

Fydd casgliadau yn parhau os nad ydych chi'n ailgofrestru?

Bydd methu ag ailgofrestru cyn 4 Tachwedd yn golygu bydd eich casgliadau yn dod i ben dros dro.

Fydd y newidiadau yn effeithio ar warchodwyr plant?

Dyma gynghori gwarchodwyr plant i ddefnyddio cynlluniau gwastraff byd masnach yn unig.

Does dim angen i mi ddefnyddio'r gwasanaeth Bagiau Porffor rhagor.

Os nad oes angen y gwasanaeth arnoch chi ragor, peidiwch ag ailgofrestru ar gyfer y cynllun. Os ydych chi o'r farn y bydd angen i chi barhau i ddefnyddio'r gwasanaeth am gyfnod byr yn unig, ailgofrestrwch. Cewch chi adael y cynllun pan fyddwch chi'n barod trwy ddilyn y ddolen yma www.rctcbc.gov.uk/GadaelyCynllunCewynnau neu drwy ffonio'r ganolfan alwadau ar 01443 425001.

Gwastraff heb ei gasglu

Os nad ydych chi wedi ailgofrestru cyn 4 Tachwedd a dydy'ch gwastraff ddim wedi cael ei gasglu, mae'n bosibl bod eich casgliad wedi dod i ben dros dro.

Serch hynny, os ydych chi wedi ailgofrestru a dydy'ch gwastraff ddim wedi cael ei gasglu, cewch chi roi gwybod ar-lein ar www.rctcbc.gov.uk/gwastraffhebeigasglu neu drwy ffonio'r ganolfan alwadau ar 01443 425001.

Mae angen rhagor o fagiau porffor arna i

Cewch chi ofyn am ragor o fagiau porffor trwy e-bostio @ailgylchu a bydd y carfanau casglu yn eu rhoi nhw i chi o fewn 2 wythnos. Fel arall, cewch chi ffonio 01443 425001 i ofyn am fagiau.

Ar ôl i'r gwasanaeth newydd gael ei roi ar waith, bydd modd i chi archebu rhagor o fagiau porffor ar-lein a bydd y carfanau casglu yn eu rhoi i chi.

Am ragor o wybodaeth am y newidiadau, ewch i www.rctcbc.gov.uk/NewidiadauBagiauPorffor neu ffonio'r ganolfan alwadau ar 01443 425001.

